CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 14 Rhagfyr, 2015 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr E Ll Owen, (Benllech B), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mrs J Peers, (Llanbedrgoch), Mr D W Roberts, (Brynteg), Mrs D Roberts, (Benllech B), Mr I Williams, (Benllech B), Miss N Williams, (Benllech B).

129 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr J Cotterell, (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A)

130 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd, 2015.

GOHEBIAETH

131 CYNGOR SIR YNYS MON – AROLWG LLETY I YMMWELWYR

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr gan Gyngor Sir Ynys Mon yn ceisio cymorth yr aelodau i ledaenu neges yr Arolwg Stoc Llety a anelir at bawb sy'n berchen llety ymwelwyr ar Ynys Mon.

132 GRWP CHWARAE BENLLECH – LLYTHYR DIOLCH.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr diolch gan Grwp Chwarae Benllech am y rhodd a wnaed tuag at brynu mainc ar gyfer defnydd y plant.

133 LLYWODRAETH CYMRU – BIL DRAFFT LLYWODRAETH LEOL.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – ebost gan Lywodraeth Cymru yn datgan fod ymgynghoriad wedi cychwyn ar y bil drafft Llywodraeth Leol ac bod angen sylwadau erbyn y 15 Chwefror 2015 fan bellaf.

134 NEUADD GYMUNED A CHYN FILWYR BENLLECH - YMATEB

Cyflwynwyd er gwybodaeth – ymateb gan ysgrifennydd y Neuadd i ymholiad gan y Cyngor Cymuned ynglyn a draen oedd yn rhedeg o Faes Parcio Waun Dirion drwy dir y Neuadd Gymuned.

135 McCARTHY & STONE – CYFLOGI POBOL LEOL.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - cyswllt gan McCarthy & Stone mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd yn y cyflwyniad diweddar i aelodau'r Cyngor Cymuned parthed cyflogi pobol leol yn natblygiad safle'r hen westy Glanrafon.

136 HEDDLU GOGLEDD CYMRU –GWARCHOD Y GYMDOGAETH

Cyflwynwyd – ebost gan Heddlu Gogledd Cymru yn rhoi gwybodaeth am newidiadau i gynllun Gwarchod y Gymdogaeth. I'r dyfodol ni fydd yr Heddlu nac yn wir, Adran Diogelwch Cymunedol y Cyngor yn chwarae rol flaenllaw yng Ngwarchod y Gymdogaeth a disgwylir aelodau gweithgar o gymunedau lleol i gyflawni'r rol.

PENDERFYNWYD – estyn gwahoddiad i gynrychiolydd i gyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned i egluro'n fanwl y newidiadau bwriedid.

137 CYNGOR SIR YNYS MON – GWASANAETH IEUENCTID.

Cyflwynwyd - Holiadur gan Brif Swyddog Ieuenctid, Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Mon yn ceisio barn ar opsiynau ar gyfer dyfodol y Gwasanaeth ieuenctid.

PENDERFYNWYD –gan fod mwyafrif cwestiynau'r holiadur wedi ei anelu at yr ieuenctid fel unigolion, peidio ac ymateb. Fodd bynnag gan fod gwasanaeth ar gyfer ieuenctid yr Ynys yn bwysig, gofyn i,r Adran Gwasanaeth Ieuenctid anfon canlyniadau'r ymgynghoriad a phenderfyniadau i'r dyfodol i sylw'r Cyngor Cymuned.

138 GRANTIAU A RHODDION.

Cais am grant gan y canlynol :-

(i) Plant Mathafarn

PENDERFYNWYD – ar sail y pwerau a roddwyd yn Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) ac oherwydd bod

y Cyngor o'r farn fod y gwariant yn unol a gofynion yr Adran, cymeradwyo talu :-

(1) grant o £150 i Plant Mathafarn.

(Datganodd Mr R O Jones ddiddordeb yn yr eitem yma ac roedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau ar y mater ond ni wnaeth bleidleisio.)

BILIAU A CHYFRIFON

139 BILIAU

PENDERFYNWYD - talu'r biliau a ganlyn :-

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fon Parry	Gwasanaeth Cyfieithu	£50-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
Scottish Power	Cyflenwad Trydan	£21-05
Society of Local Council Clerks	Aelodaeth y Clerc	£131-00
G E Pritchard	Ad-daliad bil W Kelly	£40-00

140 CYFRIFON

Cyflwynwyd - cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) yn Nhachwedd, 2015.

PENDERFYNWYD – nodi'r cyfrif a chymeradwyo'r taliadau.

141 CYLLIDEB Y CYNGOR

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o Ebrill 1, 2015 i ddiwedd mis Tachwedd, 2015.

PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

142 CYNGOR SIR YNYS MON – CYNIGION CYLLIDEB 2016/17

Trafodwyd y ddogfen Cynigion Cyllideb 2016/17 Pwyllgor Gwaith gan yr aelodau a gwnaed sylw fod rhai cynigion fel casgliadau gwastraff unwaith pob pedair wythnos yn ddadleuol a dweud y lleiaf. Ar y cyfan roedd cytundeb gyda mwyafrif y cynigion a phenderfynwyd peidio a gwneud unrhyw sylw ar hyn o bryd.

143 PROSIECT AMGYLCHEDDOL YM MENLLECH.

Gan nad oedd gwybodaeth angenrheidiol wedi ei dderbyn o'r Cyngor Sir a chwmni yswiriant Zurich penderfynwyd trafod y mater yma yng nghyfarfod mis Ionawr.

144 SEDD WAG WARD BENLLECH B

Eglurodd y Clerc nad oedd unrhyw gais wedi dod i law cyn y dyddiad cau parthed y sedd wag ar Ward Benllech B. O ganlyniad roedd cyfle i aelodau gyf-ethol i lenwi'r sedd wag.

CYNLLUNIO

145 CEISIADAU

PENDERFYNWYD ar y cais cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn:-

1. Caniatau :

30C78F/DEL	7 Cae Cali, Brynteg

146 PENDERFYNIADAU

Adroddwyd er gwybodaeth - penderfyniadau cynllunio diweddar Gyngor Sir Ynys Môn.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-00 yr hwyr.